



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Rhestr Termau ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol yng Nghymru

Dr Simon Newstead¹, Yr Athro Carolyn Wallace¹, Bethan Jenkins²,
Amber Lavans², Dr Amrita Jesurasa²,

1) Prifysgol De Cymru, Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSSPR)

2) Yr Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhagfyr 2023



Tabl Cynnwys

Datblygu'r Rhestr Termau.....	3
Cefndir	3
Yr Angen am Restr Termau ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol	3
Methodoleg	4
Nodi a Dosbarthu Terminoleg	5
Adolygiad Cwmpasu	5
Mapio Cysyniad Mewn Grŵp (MCMG).....	5
Ymgynghori.....	6
Cynhyrchu'r Rhestr Termau	6
Cyfyngiadau	9
Rhestr Termau	11
Presgripsiynu Cymdeithasol.....	11
Sut i Ddefnyddio'r Rhestr Termau	12
Llwybr Presgripsiynu Cymdeithasol	13
Diffinio Termau Presgripsiynu Cymdeithasol Craidd a Di-graidd	14
Termau Craidd	14
Termau Di-graidd.....	14
Tabl Llywio Termau Presgripsiynu Cymdeithasol Craidd	15
Rhestr Termau Craidd	16
A-Y o Dermau Craidd	35
A-Y Termau Di-graidd	40
Cyfeiriadau.....	45

Datblygu'r Rhestr Termau

Cefndir

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn derm ambarael sy'n disgrifio [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#) i gysylltu pobl ag [asedau cymunedol](#). Gall helpu i rymuso unigolion i gydnabod eu hanghenion, eu cyfderau a'u hasedau personol a chysylltu â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u [llesiant](#)^{1,2,3}. Drwy ymgysylltu â'r broses hon, gellir mynd i'r afael ag ystod eang o ffactorau sy'n effeithio ar lesiant, megis unigrwydd, gweithgaredd corfforol neu bryderon ariannol, sy'n rhoi mwy o reolaeth i'r unigolyn dros ei amgylchiadau^{4,5}. Er gwaethaf y defnydd o'r term 'presgripsiynu', mae model presgripsiynu Cymru yn rhoi'r gorau i ddilyn dull meddygol ac yn hytrach yn mabwysiadwyd dull 'does dim drws anghywir', lle mae'r ffynonellau atgyfeirio yn rhai traws-sector nad ydynt wedi'u cyfyngu i ofal iechyd/gofal sylfaenol⁶.


Yr Angen am Restr Termau ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol

Mae presgripsiynu cymdeithasol wedi tyfu a datblygu dros y degawd diwethaf⁷⁻⁹. Fodd bynnag, yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, bu diffyg safoni a chysondeb yn yr eirfa sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol⁹⁻¹¹. Mae'r diffyg safoni ac amrywiaeth yn yr eirfa wedi arwain at ddryswch posibl ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ac yn y gweithlu sy'n cyflenwi neu sy'n dod i gysylltiad â phresgripsiynu cymdeithasol, gan amharu ar gyfathrebu rhwng sectorau, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd.

Mewn ymateb i hyn, datblygwyd rhestr termau i helpu i safoni'r iaith sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol. Gallai defnyddio'r rhestr termau wella eglurder a chyfathrebu, ynghylch presgripsiynu cymdeithasol fel ymyrraeth, ar gyfer gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Y gobaith yw y bydd y rhestr yn datblygu i fod yn adnodd cyfeirio defnyddiol i'r gweithlu sy'n dod i gysylltiad â phresgripsiynu cymdeithasol ac yn ei gefnogi yng Nghymru. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r iaith sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru adeg ei chyhoeddi. Mae'n debygol y bydd angen diweddarau'r rhestr yn y dyfodol, wrth i bresgripsiynu cymdeithasol a'r iaith gysylltiedig esblygu.

Methodoleg

Roedd y gwaith o ddatblygu'r rhestr termau yn cynnwys adolygiad cwmpasu, astudiaeth mapio cysyniad mewn grŵp (MCMG) ac ymgynghori ag unigolion sydd â diddordeb mewn presgripsiynu cymdeithasol (h.y. y gweithlu sy'n dod i gysylltiad â phresgripsiynu cymdeithasol ac yn ei gefnogi, a'r cyhoedd). Dangosir y broses a fabwysiadwyd yn **Ffigur 1** isod. Mae'r protocol rhag-gofrestredig ar gyfer yr adolygiad cwmpasu, ynghyd â'r termau chwilio a'r peiriannau chwilio a ddefnyddiwyd, yn ogystal â'r set ddata ar gyfer yr holl dermau a nodwyd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: [Cronfa Ddata'r Eirfa](#).



Ffigur 1. Y broses o nodi terminoleg presgripsiynu cymdeithasol a datblygu'r rhestr termau.

Nodi a Dosbarthu Terminoleg

Adolygiad Cwmpasu

Roedd y dogfennau ar gyfer yr adolygiad cwmpasu ¹⁰ yn cynnwys erthyglau mewn cyfnodolion a oedd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid yn y DU a llenyddiaeth Iwyd o Gymru. Defnyddiwyd proses sgrinio cymhwysra dau gam i ddewis dogfennaeth i'w dadansoddi ac i nodi terminoleg sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol:

- 1) sgrinio teitl y ddogfen a chrynodeb ohoni;
- 2) sgrinio testun cyfan pob dogfen ar gyfer terminoleg sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol.

Mapio Cysyniad Mewn Grŵp (MCMG)

Cafodd pedwar deg naw o gyfranogwyr eu recriwtio ar gyfer yr astudiaeth MCMG, gan gynnwys cymunedau ymarfer presgripsiynu cymdeithasol, Cyswllt Cymru, rhwydweithiau ymchwil sy'n gysylltiedig â WSSPR a thrwy aelodau o Grŵp Cydlynu Presgripsiynu Cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chwblhaodd 27 o'r cyfranogwyr hyn y tasgau MCMG gan ddarparu data y gellid ei ddefnyddio. Mae MCMG yn ddull cymysg o greu consensws, sy'n cyfuno dulliau casglu data ansoddol â phrosesau ac offer dadansoddi meintiol ^{12,13}. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu canfyddiadau a gwerthoedd y cyfranogwyr ac yn darparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o hwyluso trafodaeth ar bwnc o ddiddordeb. Roedd yr astudiaeth MCMG yn cynnwys tri cham ymgysylltu â chyfranogwyr:

- 1) Gweithgaredd taflu syniadau – i gynhyrchu rhestr o dermau'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol;
- 2) Gweithgaredd didoli/grwpio – i hwyluso dealltwriaeth o sut yr oedd termau'n cysylltu â'i gilydd; a
- 3) Tasgau sgorio – i ddarparu dealltwriaeth o bwysigrwydd termau yn y broses presgripsiynu cymdeithasol.

Ymgynghori

Ymgynghorwyd ag aelodau o Grŵp Cydlynu Presgripsiynu Cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru, Grŵp Llywio WSSPR ac aelodau o Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol presgripsiynu cymdeithasol o rwydweithiau presgripsiynu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â WSSPR ac ICC ac ymgynghorwyd â nhw ar nifer o faterion. Fe wnaethant helpu i:

- Ddiffinio cwmpas y termau i'w cynnwys yn y rhestr
- Nodi termau a allai fod ar goll
- Dosbarthu termau fel [termau presgripsiynu cymdeithasol 'craidd' neu 'ddi-graidd'](#)
- Mireinio sawl drafft o'r rhestr termau
- Datblygu [cynrychiolaeth weledol o'r llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#) sy'n cwmpasu'r holl dermau a awgrymir yn y rhestr.

Cynhyrchu'r Rhestr Termau

Yn sgil y broses ymchwil ac ymgynghori, cafwyd ystod eang o derminoleg a oedd yn gysylltiedig â'r broses presgripsiynu cymdeithasol a oedd yn fwy na'r hyn a ragwelwyd ac yn cynnwys 192 o dermau craidd. Ystyriwyd bod y rhestr hon yn rhy fawr i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Roedd data o'r adolygiad cwmpasu a'r astudiaeth MCMG yn dangos bod llawer o'r termau a nodwyd yn ymwneud ag ychydig o agweddau penodol sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol a/neu eu bod yn dermau amgen a ddefnyddir yn llai aml i ddisgrifio'r un egwyddorion neu broses.

Cynhaliwyd proses o gydgrynhoi'r termau craidd er mwyn:

- Nodi achosion lle roedd termau lluosog yn bodoli ar gyfer agwedd benodol ar presgripsiynu cymdeithasol
- Nodi'r termau a ddefnyddir amlaf a/neu sydd fwyaf priodol i'w defnyddio ar draws sectorau
- Nodi'r berthynas rhwng y termau

Yn sgil y broses gychwynnol hon, cynhyrchwyd rhestr gychwynnol o 48 o ‘dermau yr awgrymir eu defnyddio’. Lle yr oedd yn berthnasol, cafodd rhestr o dermau amgen a thermau a ffefrir mewn sectorau penodol eu cynnwys yn y rhestr (gweler [Sut i Ddefnyddio'r Rhestr Termau](#) i gael gwybodaeth bellach).

Gyda nifer mor helaeth o dermau presgripsiynu cymdeithasol craidd, un o'r heriau oedd cynhyrchu rhestr gynhwysfawr a defnyddiol nad yw'n cyflwyno jargon diangen. Cafodd y rhestr wreiddiol o 48 o dermau ei mireinio ymhellach drwy broses ymgynghori i gynhyrchu rhestr fwy ymarferol o 36 o dermau (gweler y [Tabl Llywio](#)) sy'n ceisio crynhoi iaith graidd presgripsiynu cymdeithasol a'i chyflwyno mewn fformat addysgiadol ac ymarferol. Roedd y broses gydgyrnhoi hon yn cynnwys ail-werthuso nifer o dermau craidd a'u categoreiddio'n dermau di-graidd: ‘rheolwr presgripsiynu cymdeithasol’, ‘credydau amser’, ‘banciau amser’, ‘seren lles’, a ‘seren llesiant’. Lleihawyd y rhestr a oedd yn weddill drwy ymgorffori termau mewn disgrifiadau o dermau eraill. Er enghraifft, cafodd y term ‘cyd-lunio’ a'i ddisgrifiad cysylltiedig ei ymgorffori yn y disgrifiad ar gyfer y term ‘cydgynhyrchu’. Yn ogystal â gwneud yr eirfa'n fwy cryno, roedd y broses hon hefyd yn ychwanegu eglurder a rhagor o gyd-destun at rai termau ac yn amlygu absenoldeb gwybodaeth berthnasol benodol.

Roedd yr adborth o ymgynghoriad ar Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ¹⁴, a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r cam o ddatblygu'r eirfa, yn awgrymu bod y term presgripsiynu ei hun yn broblemus i lawer a oedd yn gweithio yn y trydydd sector, lle y gwneir y rhan fwyaf o weithgaredd presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r termau a ddewiswyd fel y termau yr awgrymir eu defnyddio yn y rhestr termau yn adlewyrchu'r adborth hwn. Mae termau sy'n disgrifio'r asedau amrywiol ‘ar bresgripsiwn’ e.e. celf ar bresgripsiwn, yn amlwg yn y llenyddiaeth ar bresgripsiynu cymdeithasol, sy'n deillio'n bennaf o dystiolaeth gyhoeddiedig o leoliadau gofal iechyd yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw termau o'r fath yn cydweddu â'r model traws-sectoraidd o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. O ganlyniad, ystyriwyd bod ‘atgyfeirio’ neu ‘atgyfeiriad’ yn dermau mwy priodol. Mewn rhai achosion, er enghraifft ‘atgyfeirio at ymarfer corff’, roedd y term eisoes yn bodoli yn y llenyddiaeth. Mewn achosion eraill, cafodd y term ei addasu ar gyfer y rhestr er mwyn helpu i uno'r iaith presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru, er enghraifft mae ‘presgripsiwn gwyrdd’ bellach yn cael ei alw'n ‘atgyfeirio gwyrdd’. Mae'r dewisiadau hyn hefyd yn cyd-fynd â'r derminoleg a ddefnyddir mewn cymunedau Cymraeg. Er enghraifft, caiff y termau ‘atgyfeirio at amgueddfeydd’, ‘atgyfeirio gwyrdd’ ac ‘atgyfeirio at

natur' eu defnyddio'n gyffredin mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith na'r cyfieithiadau uniongyrchol amgueddfeyd ar bresgripsiwn, presgripsiynu gwyrdd a natur ar bresgripsiwn'.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol wedi gwneud rhywfaint o ymchwil i bwysigrwydd lles cymdeithasol a chynghor cyfreithiol ac ariannol ym maes presgripsiynu cymdeithasol ¹⁵. Fodd bynnag, amlygodd yr ymgynghoriad ar yr eirfa nad oedd yr ymchwil wedi nodi term a oedd yn cwmpasu'r agweddau hyn ar bresgripsiynu cymdeithasol. Rydym felly wedi awgrymu'r term ambarel 'atgyfeirio at gymorth lles' i ddisgrifio'r agweddau hyn ar gymorth.

Dangosodd yr ymchwil mai'r termau 'cysylltiad cymunedol' a 'cysylltydd cymunedol' oedd y rhai a ffafriwyd fwyaf gan weithwyr proffesiynol presgripsiynu cymdeithasol yn y trydydd sector. Fodd bynnag, 'presgripsiynu cymdeithasol' a 'gweithiwr cyswllt' oedd y rhai a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin ym mhob un o wledydd y DU. Er bod y term 'gweithiwr cyswllt' yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, ystyriwyd y byddai hyrwyddo 'gweithiwr cyswllt' fel y term a awgrymwyd i'w ddefnyddio yn anwybyddu cyffredinrwydd a phwysigrwydd termau fel 'cysylltiad cymunedol' a 'cysylltydd cymunedol' yn y gymuned presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru. Felly, mabwysiadwyd 'ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol' fel y term ambarel yn y rhestr ac amlygwyd termau amgen a ffefrir gan sectorau penodol yn y cofnod o fewn y rhestr termau.

Er mwyn sicrhau bod y rhestr termau mor hygyrch â phosibl, roedd angen darparu disgrifiadau ohonynt. Dewiswyd 'disgrifiad' yn hytrach na 'diffiniad' er mwyn caniatáu i wybodaeth gyd-destunol gael ei hymgorffori, pan oedd hynny'n briodol. Ystyriwyd hefyd bod disgrifiad yn fwy addas, oherwydd bod yr iaith sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol a sut y defnyddir yr iaith honno yn cael ei defnyddio ar draws rhanbarthau a sectorau yn cyflwyno heriau penodol ar gyfer nifer o'r termau. Mae'r defnydd o ddisgrifiad hefyd yn cydnabod natur esblygol yr iaith sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol. Daeth y disgrifiadau'n wreiddiol o lenyddiaeth yr adolygiad cwmpasu a chawsant eu mireinio i gyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru. Gwnaed gwaith mireinio pellach yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad.

Cyfyngiadau

- Roedd tystiolaeth o'r adolygiad cwmpasu yn awgrymu bod llawer o'r termau a nodwyd yn cael eu defnyddio'n rhyng-gyfnewidiol ac nad oedd llawer o safoni ar draws ac o fewn gwasanaethau penodol. Felly, mae cyfyngiadau ein data wedi golygu ei bod yn eithaf anodd is-gategoreiddio termau a ddefnyddir i ddisgrifio rolau sy'n ymwneud ag ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol, yn ogystal â thermau a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o bresgripsiynu cymdeithasol. Wrth symud ymlaen, mae'n anochel y bydd angen mireinio a diweddarur'r rhestr, wrth i'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir ym maes presgripsiynu cymdeithasol newid ac esblygu. Bydd gwaith mireinio o'r fath yn darparu cyfle i'r gweithlu sy'n profi ac yn cefnogi presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru helpu i egluro disgrifiadau a/neu is-gategoriâu sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn.
- Cydnabyddir nad yw'r amrywiaeth o ymyriadau presgripsiynu cymdeithasol, llwybrau atgyfeirio a mynediad at ymyriadau o'r fath ar gael i bawb ledled Cymru.
- Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yn seiliedig i raddau helaeth ar ddarparu gwasanaethau i oedolion, ond cydnabyddir y gall presgripsiynu cymdeithasol ganolbwyntio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Dechreuodd y rhestr termau gyda'r sylfaen dystiolaeth yn y llenyddiaeth presgripsiynu cymdeithasol ac o ddata a ddarparwyd gan ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol ond esblygodd yn dilyn ymgynghoriad. Er ein bod yn gobeithio y bydd y rhestr termau yn hygyrch i'r cyhoedd, mae'r iaith a'r naratif a ddefnyddir wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes presgripsiynu cymdeithasol neu gydag ef. Mae'r rhestr termau hon yn rhan o'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru sydd wedi cael ei chynhyrchu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r fframwaith cenedlaethol yn cynnwys nifer o ddogfennau canllaw i gefnogi twf presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys disgrifiad cyhoeddus o bresgripsiynu cymdeithasol. At hynny, cydnabyddir na fydd yr holl dermau yn y rhestr yn berthnasol i aelodau o'r cyhoedd sy'n manteisio ar bresgripsiynu cymdeithasol ac y gallai'r iaith a ddefnyddir yn y rhestr fod yn rhwystr i rai aelodau'r cyhoedd. Felly, mae fersiwn gryno, hawdd ei deall o'r rhestr termau, sy'n cynnwys 22 o'r termau y mae'r rhai sy'n manteisio ar bresgripsiynu cymdeithasol yn fwy tebygol o ddod ar eu traws, wedi'i llunio ar y cyd ag Anableddau Dysgu Cymru. Er mwyn cynyddu defnyddioldeb a hygyrchedd y rhestr, cafodd gwefan ei chreu ar gyfer y ddwy fersiwn hyn o'r rhestr termau (www.splossary.wales).

- Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, roedd angen i'r rhestr termau adlewyrchu iaith presgripsiynu cymdeithasol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chododd sawl her yn sgil hynny. Nid oedd cyfieithiadau Cymraeg uniongyrchol o rai o'r termau Saesneg a nodwyd neu nid oedd y cyfieithiad uniongyrchol yn derm a oedd yn cael ei ddefnyddio 'o ddydd i ddydd' yn y maes presgripsiynu cymdeithasol. Er enghraifft:
 - Mae'r termau 'rhagnodi' cymdeithasol' a 'presgripsiynu cymdeithasol' ill dau yn cael eu defnyddio am 'social prescribing', ond mae'r term 'atgyfeiriad cymdeithasol', sef 'social referral' yn Saesneg, yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin mewn cymunedau Cymraeg.
 - Mae dau gyfieithiad o'r term 'social prescribing practitioner' sef 'ymarferydd rhagnodi cymdeithasol' ac 'ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol, a'r olaf sydd fwyaf cyffredin mewn cymunedau Cymraeg.
 - Y cyfieithiad llythrennol o 'green prescribing' yw 'rhagnodi gwyrdd' ond o fewn cymunedau Cymraeg, mae'r term 'atgyfeiriad gwyrdd', sef 'green referral' yn Saesneg yn fwy cyffredin.

Felly mae'r rhestr termau'n cydnabod ac yn amlygu'r achosion hynny lle y defnyddir rhai termau presgripsiynu cymdeithasol Cymraeg yn fwy cyffredin mewn testunau ac ymarfer proffesiynol ac academaidd, ac eraill sy'n fwy tebygol o gael eu defnyddio mewn cymunedau Cymraeg.



Rhestr Termau Presgripsiynu Cymdeithasol



Sut i Ddefnyddio'r Rhestr Termau

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r rhestr a dod o hyd i dermau.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r rhestr termau hon wedi nodi mwy na 400 o dermau sy'n gysylltiedig â'r broses. Cafodd y temrau hyn eu rhannu'n ddwy restr: [termau presgripsiynu cymdeithasol craidd](#) a [thermau presgripsiynu cymdeithasol di-graidd](#).

Mae'r rhestr o 192 o dermau presgripsiynu cymdeithasol craidd wedi'i mireinio yn rhestr ymarferol o 36 o dermau, gyda disgrifiadau i gyd-fynd â phob term. Defnyddiwch y [tabl llywio](#) neu'r [siart llif yn Ffigur 2](#) ar bresgripsiynu cymdeithasol i ganfod term yn gyflym a symud drwy'r rhestr.

Yn y rhestr termau, mae'r termau 'a awgrymir', i'w defnyddio ar draws sectorau a phroffesiynau, yn cael eu harddangos yn y gornel chwith uchaf mewn **llythrennau du mawr**. O fewn y testun, efallai y cyflwynir termau ychwanegol, a bydd y rhain hefyd yn ymddangos mewn **print du trwm**. Defnyddiwch y [tabl llywio](#) i ddychwelyd i'r tabl, neu dewiswch [derm wedi'i danlinellu](#) o'r testun neu'r is-adran '**Termau Cysylltiedig**' i fynd i'r lleoliad priodol o fewn y rhestr.


O fewn y disgrifiad o derm a/neu'r is-adran '**Termau Amgen**', lle y nodwyd termau amgen fel termau a ffefrir ar gyfer sectorau penodol, nodir hyn drwy'r defnydd o dalfyriad mewn uwchysgrif. Dangosir y termau mewn **print du trwm** gyda dangosydd mewn uwchysgrif ar gyfer y sector (gofal iechyd = ^{GI}, gofal cymdeithasol = ^{GC}, gwasanaethau a sefydliadau gwirfoddol cymunedol = ^{GSGC}). Er enghraifft, **Gweithiwr cyswllt** ^{GWC}.

Mae'r holl dermau presgripsiynu cymdeithasol a nodwyd yn ystod ein gwaith ymchwil yn nhrefn y wyddor yn y rhestr [A-Y o Dermau Craidd](#). Gallwch ddewis y termau unigol i fynd i'r lleoliad priodol yn y rhestr.

Arddangosir yr holl dermau presgripsiynu cymdeithasol di-graidd yn yr adran [A-Y o Dermau Di-graidd](#).

Er mwyn darparu eglurder ynghylch y dystiolaeth ar gyfer cynnwys termau a'r disgrifiadau ategol, mae dynodwyr wedi'u cynnwys mewn uwchysgrif, wrth ymyl y termau e.e. **Presgripsiynu Cymdeitathsol** ^{Y, MCMG, AC} (ymgyngoriad = ^Y, mapio cysyniad mewn grŵp = ^{MCMG}, adolygiad cwmpasu = ^{AC}). Mae'r cyfeiriadau ar gyfer y termau craidd a nodwyd yn yr adolygiad cwmpasu i'w gweld yn y rhestr [A-Y o Dermau Craidd](#).

Llwybr Presgripsiynu Cymdeithasol



Figur 2. Rhestr termau presgripsiynu cymdeithasol o fewn y llwybr presgripsiynu cymdeithasol.

Diffinio Termau Presgripsiynu Cymdeithasol Craidd a Di-graidd

Mae'r adran hon yn esbonio'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddsbarthu'r termau a nodwyd sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol yn dermau craidd neu ddi-graidd. Roedd y gwaith o ddatblygu'r eirfa yn canolbwyntio ar y termau presgripsiynu cymdeithasol craidd. Mae rhestrau A-Y o'r [termau craidd](#) a'r [termau di-graidd](#) i'w gweld ar dudalennau olaf y ddogfen hon.

Termau Craidd

Diffiniad: Term a ddefnyddir mewn iaith bob dydd yn y maes presgripsiynu cymdeithasol gan ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol, sy'n ymwneud yn benodol â a/neu sy'n disgrifio rhan hanfodol o'r broses presgripsiynu cymdeithasol.

Meini Prawf ar gyfer Cynnwys Term: Term sy'n ymwneud yn benodol â rhan hanfodol o'r broses presgripsiynu cymdeithasol a/neu sy'n disgrifio hynny. Defnyddir y term mewn deunydd cyfathrebu i wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol unigolion drwy gydol y broses presgripsiynu cymdeithasol a/neu wrth wella penderfynyddion iechyd ehangach i unigolion drwy gydol y broses presgripsiynu cymdeithasol.

Meini Prawf ar gyfer Hepgor Term: Term a ddefnyddir yn gyffredin mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol/ statudol/ anstatudol OND nad yw'n ymwneud yn benodol â rhan ganolog a/neu ran hanfodol o'r broses presgripsiynu cymdeithasol a/neu nad yw'n disgrifio hynny.

Termau Di-graidd

Diffiniad: Term a ddefnyddir ar draws y meysydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol/ statudol/ anstatudol, sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol ond nad yw'n ymwneud â rhan hanfodol o'r broses presgripsiynu cymdeithasol a/neu nad yw'n disgrifio hynny.

Meini Prawf ar gyfer Cynnwys Term: Term nad yw'n derm presgripsiynu cymdeithasol craidd ond a ddefnyddir mewn deunydd cyfathrebu i wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol unigolyn drwy gydol y broses presgripsiynu cymdeithasol a/neu wrth wella penderfynyddion iechyd ehangach i unigolion drwy gydol y broses presgripsiynu cymdeithasol.

Meini Prawf ar gyfer Hepgor Term: Mae'r gair yn derm a ddefnyddir yn gyffredin mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol/ statudol/ anstatudol ond nid yw'n gysylltiedig â phresgripsiynu cymdeithasol yn benodol.



Tabl Llywio Termau Presgripsiynu Cymdeithasol Craidd

Asedau Cymunedol	Dulliau Presgripsiynu Cymdeithasol
Atgyfeirio	Egwyddorion Canlyniad Presgripsiynu Cymdeithasol
Atgyfeirio at Addysg	Gwasanaethau Statudol
Atgyfeirio at Gymorth Lles	Hwylusydd Iechyd
Atgyfeirio at Lyfrau	Hybiau Cymorth Cymunedol
Atgyfeirio at Ymarfer Corff	Hyrwyddwr Presgripsiynu Cymdeithasol
Atgyfeirio Creadigol	Llesiant
Atgyfeirio Glas	Llwybr Presgripsiynu Cymdeithasol
Atgyfeirio Gwyrdd	Llywiwr Gofal
Caffis Cymdeithasol	Mapio Asedau
Cydgynhyrchu	Model Presgripsiynu Cymdeithasol
Cyfannol	Presgripsiynu Cymdeithasol
Cyfeirio a Chyfeirio Gweithredol	Presgripsiynu Cymdeithasol Digidol
Cynllun dan Reolaeth Practis	Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol
Cynllunio Camau Gweithredu	Sgwrs am yr Hyn sy'n Bwysig
Datblygu'r Practis	System Gyfeillio
Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Ymarferydd Presgripsiynu Cymdeithasol
Dull sy'n Seiliedig ar Asedau	Ymyriadau'n Seiliedig ar Natur

Rhestr Termau Craidd

Asedau Cymunedol ^{MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae **asedau cymunedol** yn derm cyfunol ar gyfer unrhyw beth y gellir ei ddefnyddio i wella ansawdd bywyd cymuned. Gall hyn gynnwys **grwpiau cymunedol, ymyriadau a gwasanaethau** y gellid eu darparu ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, yn ogystal ag adeiladau, tir neu hyd yn oed berson mewn cymuned. Er enghraifft, gweithgaredd yw ioga ac nid ased cymunedol, ond gellid ystyried bod grŵp ioga a'r neuadd bentref ble y caiff ei gynnal yn **asedau cymunedol**. Nid yw nofio'n cael ei ystyried yn ased cymunedol ond gellid ystyried bod grŵp cymunedol a'r lleoliad nofio yn **asedau cymunedol**.

Mae **asedau diwylliannol**, neu asedau treftadaeth, yn **asedau cymunedol** sydd â gwerth oherwydd eu gwerth hanesyddol, artistig, gwyddonol ac amgylcheddol. Mae'r asedau yn cynnal eu gwerth oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn y gymuned.

Termau Amgen: Cyfalaf cymdeithasol

Termau Cysylltiedig: [Atgyfeirio](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [caffis cymdeithasol](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [dulliau presgripsiynu cymdeithasol](#), [hybiau cymorth cymunedol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio ^{Y, MCMG}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio** yn disgrifio'r weithred o anfon rhywun at unigolyn arall neu i le arall i gael triniaeth, help, cyngor, ac ati. Yng nghyd-destun [presgripsiynu cymdeithasol](#), gellir gwneud **atgyfeiriad** at [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) ac o [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) neu rywun sy'n ymgymryd â [phresgripsiynu cymdeithasol](#) fel rhan o'u rôl at [asedau cymunedol](#) priodol.

Gall **atgyfeirio** at [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol mewn lleoliad clinigol (e.e. meddyg teulu, fferylllydd neu ffisiotherapydd), [gwasanaeth statudol](#), neu [Sefydliad y Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Gall unigolyn hefyd gael mynediad uniongyrchol i wasanaeth [presgripsiynu cymdeithasol](#) drwy **hunanatgyfeirio**. Mae **hunanatgyfeirio** yn disgrifio'r broses ble mae unigolyn yn cysylltu â rhywun sy'n gweithio fel [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) neu rywun sy'n ymgymryd â [phresgripsiynu cymdeithasol](#) fel rhan o'i rôl, heb fod wedi cael ei **atgyfeirio** at y person hwnnw. Nid yw **hunanatgyfeirio** yn disgrifio rhywun sy'n cael mynediad uniongyrchol i [asedau cymunedol](#) (er enghraifft, mynd i ddsbarth celf)

Gellir hefyd ddefnyddio'r term **atgyfeirio cymdeithasol** i ddisgrifio'r weithred o **atgyfeirio** yn y maes [presgripsiynu cymdeithasol](#). Er enghraifft, gallai unigolyn gael **atgyfeiriad cymdeithasol** gan [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) ar gyfer [cweithgareddau atgyfeirio creadigol](#).

Atgyfeirio wedi'i dargedu yw pan fydd **gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol** yn cynnig cymorth [presgripsiynu cymdeithasol](#) cynnar i gynorthwyo unigolion neu boblogaethau sydd ag angen a nodwyd yn benodol, er enghraifft unigolion â chyflyrau iechyd cronig, neu gleifion mewn gwasanaeth arbenigol, fel 'unedau llosgiadau'. Gellir nodi'r angen am **atgyfeiriadau wedi'u targedu** drwy dystiolaeth leol, er enghraifft dadansoddiad o anghenion y boblogaeth neu gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n defnyddio dull haenu risgiau ar gyfer eu grŵp cleifion. Gellir datblygu dull gweithredu rhagweithiol hefyd mewn lleoliadau penodol, er enghraifft ymhlith poblogaeth o fyfyrwyr prifysgol pan fyddai cymorth yn y gymuned yn gwella eu [llesiant](#) ac yn atal problemau mwy difrifol rhag datblygu.

Termau Amgen: Cyflwyniad, cyswllt,

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywiwr gofal](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu digidol cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Atgyfeirio at Addysg ^{Y, AC}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio at addysg** yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion at gyfleoedd dysgu ffurfiol, gan gynnwys llythrennedd a sgiliau sylfaenol. Gall gynnwys y defnydd o gynghorwyr dysgu mewn sefydliadau addysg, gwasanaethau dydd, timau iechyd meddwl neu [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#). Gall y cynghorwyr dysgu helpu i nodi gweithgareddau addysgol priodol ar gyfer unigolion a chefnogi mynediad.

Termau Amgen: Addysg ar bresgripsiwn ^{GI}

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio at Gymorth Lles^Y

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio at gymorth lles** yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion at sefydliad sy'n cynnig cymorth ar les cymdeithasol a chymorth cyfreithiol ac ariannol. Gall **atgyfeirio at gymorth lles** helpu unigolion i fynd i'r afael â materion a allai gael effaith uniongyrchol ar eu hiechyd corfforol, eu [llesiant](#) ac ansawdd eu bywyd. Ymysg yr enghreifftiau o wasanaethau a gweithgareddau **atgyfeirio at gymorth lles** mae rheoli dyledion, adrodd am achosion o dorri safonau tai, osgoi digartrefedd, cyflogaeth neu addysg/hyfforddiant, mynediad at ofal iechyd ac ymgysylltu ag ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol. Gellir targedu cyngor ar les cymdeithasol, cyfreithiol ac ariannol i gefnogi grwpiau penodol, fel unigolion sy'n dioddef yn sgil y defnydd problematig o gyffuriau neu alcohol, neu bobl ifanc sy'n profi anfantais gymdeithasol. Efallai y bydd gwasanaethau cyngor yn cael eu darparu ar y cyd â gwasanaethau iechyd, neu gallant fod yn annibynnol arnynt.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [caffis cymdeithasol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [gwasanaethau statudol](#), [hybiau cymorth cymunedol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio at Lyfrau^{Y, AC}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio at lyfrau** yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio [atgyfeirio](#) unigolion at lyfrau hunangymorth penodol i'w galluogi i reoli a deall materion seicolegol yn well. Mae'r llyfrau hunangymorth yn cynnwys casgliad craidd o 30 o lyfrau sy'n defnyddio egwyddorion therapi gwybyddol ymddygiadol ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl cyffredin a chawsant eu hysgrifennu gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae ymarferwyr cyffredinol neu ymarferwyr iechyd meddwl yn [atgyfeirio](#) unigolyn i fenthycu llyfr "ar bresgripsiwn" o lyfrgell gyhoeddus leol. Mae modd cael gafael ar y llyfrau hyn drwy [hunanatgyfeirio](#) hefyd.

Termau Amgen: **Bibliotherapi**^{AC}, **llyfrau ar bresgripsiwn**^{GI}, darllen ar bresgripsiwn

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio at Ymarfer Corff ^{AC}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio at ymarfer corff** yn dermau a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) at weithgaredd corfforol sydd wedi'i deilwra ac sy'n cael ei oruchwylio. Mae cynlluniau atgyfeirio at ymarfer corff yn ymyrraeth amlasiantaeth sy'n cynnwys ymddiriedolaethau gofal sylfaenol lleol, cynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau hamdden gwirfoddol a phreifat yn aml. Mae cleifion nad ydynt yn gwneud ymarfer corff sydd â phroblemau iechyd presennol neu ffactorau risg ar gyfer salwch yn y dyfodol yn cael eu hatgyfeirio gan ymarferwyr cyffredinol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill i raglen o ymarfer corff cymorthdaledig mewn campfa leol. Mae'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS) yn wasanaeth cenedlaethol a gynhelir gan Gymdeithasau Llywodraeth Leol Cymru sy'n cael ei redeg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae **arweinydd ymarfer corff** neu **ymarferydd atgyfeirio at ymarfer corff** yn rhywun a gyflogir gan wasanaethau hamdden sy'n gweithio gydag unigolion ac sy'n derbyn [atgyfeiriadau](#) at ymarfer corff drwy wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol meddygfeydd.

Termau Amgen: **Ymarfer corff ar bresgripsiwn** ^{GI}, cynlluniau ymarfer corff ar bresgripsiwn, cynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff, cynlluniau hunangyfeirio cleifion ar gyfer sesiynau ymarfer corff wedi'u goruchwylio, ymyrraeth gweithgarwch corfforol, **cynlluniau atgyfeirio at weithgarwch corfforol** ^{GC}.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynlluniau dan reolaeth practis](#), [hwylusydd iechyd](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio Creadigol ^{Y, AC}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio creadigol** yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio [atgyfeirio](#) unigolion at [asedau cymunedol](#) i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol. Ymysg yr enghreifftiau o **atgyfeirio creadigol** mae canu / creu cerddoriaeth, paenito, dawn, drama, crefftau, ffotograffiaeth a ffilm, theatr ac ysgrifennu creadigol. Rhoddir rhai enghreifftiau o'r termau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer atgyfeirio creadigol isod.

Mae **atgyfeirio at y celfyddydau** ^{CVSO} (y cyfeirir ato'n aml fel **ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau** ^{GC}, **ymyriadau celfyddydau ar gyfer iechyd** ^{GC}, **celf ar bresgripsiwn** ^{GI}), yn disgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol. Mae **atgyfeirio at amgueddfeydd** yn disgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion i ymgysylltu'n greadigol gydag amgueddfeydd, sy'n aml yn ymgorffori elfen o weithgarwch sy'n seiliedig ar gelf. Mae **atgyfeirio at ddawns** yn disgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dawn a symud. Yn aml, caiff gweithgareddau **atgyfeirio at ddawns** eu hawgrymu ar gyfer oedolion â chyflyrau cronig, symudedd cyfyngedig, problemau niwrolegol neu ar gyfer oedolion hŷn sydd mewn perygl o gwmpo.

Mae'r llenyddiaeth, sydd wedi'i seilio'n helaeth yn y maes gofal iechyd, yn aml yn ffafrio defnyddio'r term '...ar bresgripsiwn' ar gyfer disgrifio'r asedau creadigol amrywiol sydd wedi'u cynnwys o fewn yr ambarél atgyfeiriad creadigol. Fodd bynnag, dangosodd yr ymgynghoriad nad yw'r term 'ar bresgripsiwn' yn cydfynd yn hwylus â'r model trawstoriadol o [bresgripsiynu cymdeithasol](#) yng Nghymru. Felly, wrth gynhyrchu'r rhestr termau, ystyriwyd y dylai'r termau a ddefnyddir ddefnyddio 'atgyfeirio (at)' i adlewyrchu'r adborth o'r ymgynghoriad a natur y cynnig [presgripsiynu cymdeithasol](#) yng Nghymru.

Termau Amgen: **Celf ar bresgripsiwn** ^{GI}, y celfyddydau fel gofal iechyd, dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau, **ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau** ^{GC}, **ymyriadau celfyddydau ar gyfer iechyd** ^{GC}, atgyfeirio at gelf, celfyddydau creadigol mewn presgripsiynu cymdeithasol, **dawns ar bresgripsiwn** ^{GI}, celfyddydau iachau, cynllun presgripsiynu cymdeithasol yn seiliedig ar amgueddfeydd, **amgueddfeydd ar bresgripsiwn** ^{GI}, rhaglenni celfyddydau presgripsiwn cymdeithasol.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio Glas ^{Y, MCMG, AC}

Disgrifiad: Term ambarél aa ddefnyddir i ddisgrifio [atgyfeirio](#) unigolion at **grwpiau**, **ymyriadau neu wasanaethau** sy'n cefnogi pobl i gymryd rhan mewn [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#) mewn amgylcheddau 'glas' naturiol neu lled-naturiol, er mwyn gwella eu [llesiant](#). Defnyddir y term **campfa las** i ddisgrifio amgylchedd sy'n seiliedig ar ddŵr, er enghraifft llyn neu forlin, lle y gall unigolyn gymryd rhan mewn gweithgareddau a/neu ymarfer corff sy'n seiliedig ar ddŵr neu ger y dŵr. Mae enghreifftiau o weithgareddau **atgyfeirio glas** yn cynnwys nofio, syrffio, rhwyfo ac ioga traeth.

Termau Amgen: **Presgripsiynu glas** ^{GI}

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Atgyfeirio Gwyrdd ^{Y, MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae **atgyfeirio gwyrdd** yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o [atgyfeirio](#) unigolion at **grwpiau, ymyriadau neu wasanaethau** sy'n cefnogi pobl i gymryd rhan mewn [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#) mewn amgylcheddau 'gwyrdd' naturiol neu led-naturiol, er mwyn gwella eu [llesiant](#). Defnyddir y term **campfa werdd** i ddisgrifio amgylcheddau fel fforestydd, glaswelltir, gerddi a pharciau lle y gallai unigolyn gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a/neu ymarfer corff. Gall enghreifftiau o **weithgareddau atgyfeirio gwyrdd** gynnwys cerdded neu redeg mewn parciau, neu wirfoddoli i glirio a chynnal a chadw coetir.

Mae **ecotherapi** yn rhan o'r ambarél **atgyfeirio gwyrdd**. Mae'n fath ffurfiol o driniaeth therapiwtig sy'n cynnwys gwneud gweithgareddau awyr agored ym myd natur gyda'r nod o ategu triniaethau presennol ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl ysgafn i ganolig. Mae **ffermio gofal**, a elwir hefyd yn **ffermio cymdeithasol** yn rhan o'r termau ambarél **ecotherapi** a **phresgripsiynu gwyrdd**. Mae'n fath penodol o **ymyrraeth gofal gwyrdd** sydd wedi'i ddiffinio fel y defnydd o ffermio masnachol a thirweddau amgylcheddol i hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol drwy weithgareddau ffermio arferol. Yn ei hanfod mae **ffermio gofal** yn waith gwirfoddol mewn amgylchedd amaethyddol neu arddwriaethol ar gyfer budd seicolegol a/neu ffisiolegol.

Termau Amgen: Ffermio gofal, presgripsiwn gwyrdd creadigol, ecotherapi, **gofal gwyrdd** ^{GC}, gwasanaethau gofal gwyrdd, partneriaethau iechyd gwyrdd, llwybrau atgyfeirio iechyd gwyrdd, **presgripsiynu gwyrdd** ^{GI}, ffermio cymdeithasol.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Caffis Cymdeithasol ^{AC}

Disgrifiad: Ymyrraeth mewn cymunedau lleol yw caffi cymdeithasol sy'n ceisio hwyluso'r cyfleoedd i wneud cysylltiadau cymdeithasol newydd er mwyn lleihau unigrwydd.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [hybiau cymorth cymunedol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Cydgynhyrchu ^{Y, MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae **Cydgynhyrchu** yn cyfeirio at berthynas rhwng darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u cymunedau. Mae'r term yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau gwasanaeth gan gynnwys **cyd-lunio**, cyd-gyflenwi yn ogystal â chyd-asesu gwasanaethau.

Yng nghyd-destun y llwybr presgripsiynu cymdeithasol, mae unigolyn sy'n cael ei atgyfeirio at [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn [cydgynhyrchu cynllun gweithredu](#) yn dilyn [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#). Yn y cyd-destun hwn, defnyddir y term **cyd-lunio** yn achlysurol i olygu **cydgynhyrchu**. Fodd bynnag, mae **cyd-lunio** yn cyfeirio'n benodol at berthynas rhwng darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u cymunedau yng nghyd-destun llunio gwasanaethau.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [atgyfeirio](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Cyfannol ^{MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae'r term cyfannol yn ymwneud â rhywbeth sydd yn ei gyfanrwydd neu'r system gyfan yn hytrach na dim ond rhannau ohoni. Mae [presgripsiynu cymdeithasol](#) yn atgyfnerthu agwedd at iechyd sy'n ystyried ffactorau meddyliol a chymdeithasol, yn hytrach na dim ond symptomau salwch.

Mae yna wahanol [fodelau presgripsiynu cymdeithasol](#), ond mae'r un mwyaf cyffredin yng Nghymru yn un cyfannol sydd, gyda chymorth [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn helpu'r cleient i ddod o hyd i wasanaethau addas a chael mynediad atynt, ac sy'n ceisio defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn cyfan dros gyfnod hwy.

Termau Amgen: Holistaidd

Termau Cysylltiedig: [Cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Cyfeirio a Chyfeirio Gweithredol ^{C, AC}

Disgrifiad: Cyfeirio gweithredol yw'r math o gyfeirio a ddefnyddir amlaf gan y rhai mewn rôl [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#). Mae cyfeirio yn fath ysgafn iawn o [bresgripsiynu cymdeithasol](#) sy'n golygu cyfeirio'r unigolyn at [asedau cymunedol](#) a allai fod yn ddefnyddiol. Fel cymhariaeth, mae cyfeirio gweithredol, sy'n rhan o [fodelau presgripsiynu cymdeithasol ysgafn, canolig a chyfannol](#), yn gofyn bod gan yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) wybodaeth fanylach am yr unigolyn a'r [asedau cymunedol](#) sydd ar gael fel bod y cyfeirio yn ystyrlon ac yn berthnasol i'r unigolyn. Mae'r math hwn o [bresgripsiynu cymdeithasol](#) yn gweithio orau i'r bobl sy'n ddigon hyderus ac yn meddu ar ddigon o sgiliau i ddefnyddio [asedau cymunedol](#) yn annibynnol ar ôl ymyriad byr.

Mae cyfeirio a chyfeirio gweithredol hefyd yn cael eu gwneud gan ystod eang o bobl mewn rolau nad ydynt yn ymwneud â phresgripsiynu cymdeithasol, megis Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs) ac aelodau presennol o staff mewn practis (derbynyddion yn gyffredinol) sy'n darparu gwybodaeth a dewis drwy gyfeirio pobl at wasanaethau, gan ddefnyddio gwybodaeth leol a chyfeiriaduron adnoddau.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [hybiau cymorth cymunedol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywiwr gofal](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Cynllun dan Reolaeth Practis ^{AC}

Disgrifiad: Cynllun presgripsiynu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phractis meddyg teulu neu sy'n cael ei redeg o bractis meddyg teulu yw **cynllun dan reolaeth practis**. Mae'r mathau symlaf o gynlluniau ar ffurf cyngor manteisgar gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, meddyg teulu neu nyrs practis fel arfer. Mae model mwy cyffredin a soffistigedig yn cynnwys gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn atgyfeirio cleifion i glinig yn y practis, lle y gall **llywiwr gofal** ^{GI}, [hwylusydd iechyd](#) neu [hwylusydd iechyd](#) gyfeirio cleifion i fynychu dosbarthiadau ymarfer corff yn y gymuned leol.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio](#), [datblygu'r practis](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [llywiwr gofal](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Cynllunio Camau Gweithredu ^{MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae Cynllunio Camau Gweithredu, yng nghyd-destun [presgripsiynu cymdeithasol](#), yn weithred a gyflawnir ar y cyd rhwng yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) a'r unigolyn. Mae [ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol](#) yn helpu pobl i nodi eu hanghenion cymdeithasol, meddyliol, corfforol ac economaidd. Maent yn cynorthwyo'r unigolyn i [gydgynhyrchu cynllun gweithredu](#) pwrpasol er mwyn bod o fudd i'w hiechyd a'u [llesiant](#).

Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen sy'n disgrifio cwrs gweithredu sydd wedi'i greu a'i gytuno arno gan y [ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol](#) a'r unigolyn.

Termau Amgen: Cynlluniau Llesiant

Termau Cysylltiedig: [Cydgynhyrchu](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Datblygu'r Practis ^{AC}

Disgrifiad: Mae datblygu'r practis yn disgrifio datblygu practis meddyg teulu i ddarparu a defnyddio [presgripsiynu cymdeithasol](#) fel opsiwn ymyrraeth/triniaeth i gefnogi unigolion. Mae hyn yn cynnwys tair elfen: defnyddio dull practis cyfan; datblygu awyrgylch y practis; datblygu seilwaith y practis, sy'n cwmpasu elfennau digidol a ffisegol.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Cynllun dan reolaeth practis](#), [egwyddorion canlyniad presgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [hyrwyddwr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywiwr gofal](#), [presgripsiynu cymdeithasol digidol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#).

Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ^{MCMG}

Disgrifiad: Defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes [presgripsiynu cymdeithasol](#) i helpu unigolion i nodi a chyflawni eu nodau personol, yn ogystal â mynd i'r afael â'r materion a'r problemau sylfaenol. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ceisio sicrhau bod yr unigolyn yn gwneud cyfraniad canolog at benderfyniadau sy'n ymwneud â'i fywyd hwy. Mae'n ystyried y bobl sy'n defnyddio gwasanaeth fel partner cyfartal yn y gwaith o gynllunio, datblygu a monitro, ac mae'n golygu gwranddo, meddwl gyda'ch gilydd, rhannu syniadau a gofyn am adborth er mwyn sicrhau y gall ymyriadau a chymorth ddiwallu'r anghenion sydd fwyaf pwysig i'r unigolyn.

Termau Amgen: Dan arweiniad cleient, dan arweiniad unigolyn, ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, model gofal wedi'i bersonoli.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [cydgynhyrchu](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [system gyfeillio](#).

Dull sy'n Seiliedig ar Asedau ^{AC}

Disgrifiad: Mae dull sy'n seiliedig ar asedau yn cynnwys defnyddio sgiliau a gwybodaeth unigolion a'r cysylltiadau a'r adnoddau sydd ar gael mewn cymunedau a sefydliadau, yn hytrach na chanolbwyntio ar broblemau a diffygion. Mae'r dull yn meithrin gobaith drwy symud y ffocws oddi wrth "beth sy'n bod arnom" i "beth sy'n iawn gyda ni". Mae'n tybio, er y gallai problemau fodoli, a'r rheini'n rhai difrifol weithiau, bod adnoddau a galluoedd heb eu defnyddio sy'n gynhenid i bob unigolyn, sefydliad neu gymuned y gellir eu defnyddio er mwyn gwella'r amodau presennol.

Mae mentrau [presgripsiynu cymdeithasol](#) yn darparu dull sy'n seiliedig ar asedau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy helpu pobl a chymunedau i ddod at ei gilydd er mwyn creu newid cadarnhaol, gan ddefnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu profiadau bywyd a'u diddordebau ar faterion y maent yn eu profi yn eu bywydau bob dydd. Mae'r dull yn ceisio grymuso unigolion a, lle y bo'n briodol, eu galluogi i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

Weithiau caiff y term **dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau** ei ddefnyddio i olygu neu ar y cyd â **dull sy'n seiliedig ar asedau**. Er bod y ddau derm yn debyg iawn, mae **dull sy'n seiliedig ar gryfderau** yn disgrifio dull [cydgynhyrchiol](#) sy'n rhoi pwysau ar hunanbenderfyniad drwy ddefnyddio cryfderau ac asedau'r unigolion. Drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau, gall yr unigolyn fynd i'r afael â'i anghenion mewn ffordd sy'n ei alluogi i arwain a rheoli ei [lesiant](#).

Termau Amgen: Dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau ac asedau

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [dulliau presgripsiynu cymdeithasol](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [mapio asedau](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [system gyfeillio](#).

Dulliau Presgripsiynu Cymdeithasol ^{AC}

Disgrifiad: Mae dulliau presgripsiynu cymdeithasol yn disgrifio gwahanol ryngweithiadau rhwng [presgripsiynu cymdeithasol](#) a'r amgylchedd ac amserlen yr effaith.

Tactegol: Yn ystyried yr amgylchedd. Amserlen yr effaith: Tymor byr

Gweithredol: Yn addasu'r amgylchedd. Amserlen yr effaith: Tymor byr - canolig

Strategol: Yn newid yr amgylchedd. Amserlen yr effaith: Tymor canolig - hir

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [datblygu'r practis](#), [egwyddorion canlyniad presgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Egwyddorion Canlyniad Presgripsiynu Cymdeithasol ^{AC}

Disgrifiad: Mae egwyddorion canlyniad presgripsiynu cymdeithasol yn disgrifio'r lefel a'r math o ganlyniadau sy'n gysylltiedig â [phresgripsiynu cymdeithasol](#).

Unigolyn: Mae'r unigolyn yn cael ei rymuso i wella ei iechyd a'i [lesiant](#) drwy gysylltiadau gwell â'i gymuned a/neu ei deulu. Canlyniadau ansawdd bywyd a [llesiant](#) gwell i unigolion, gyda chymunedau hapusach, mwy cysylltiedig a gwydn, a darparu dewis o ran y ddarpariaeth ar bresgripsiwn. Gallai llesiant wella hefyd drwy fwy o gefnogaeth deuluol i ymgysylltu â [phresgripsiynu cymdeithasol](#).

Cymuned: Ymwybyddiaeth well o asedau cymunedol er mwyn galluogi pobl i ymgysylltu a chefnogi cydweithrediad ar draws sefydliadau/sectorau. Meini prawf clir ar gyfer swydd a set **sgiliau** [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol o'r dechrau](#).

Systemau/strategol: Lleihau cyfeirio amhriodol at wasanaethau drwy wella gwybodaeth a llwybrau i [asedau cymunedol](#) addas (cyfuno adnoddau). Newid systemig, gan gynnwys arweinyddiaeth ar lefel system ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol rheng flaen. Mae elw ar fuddsoddiad yn ffurfio rhan o gyllido cynaliadwy. Prosesau strwythuredig ar gyfer gwerthuso.

Canlyniadau tymor hir: 1) Gwelliant i lesiant meddyliol y boblogaeth a gostyngiad yng nghyffredinrwydd o salwch meddwl ac anghydraddoldebau cysylltiedig; 2) Gwelliant i lesiant corfforol y boblogaeth a gostyngiad yng nghyffredinrwydd salwch corfforol ac anghydraddoldebau cysylltiedig; 3) Gwelliant i [lesiant](#) cymdeithasol y boblogaeth a gostyngiad yng nghyffredinrwydd [llesiant](#) gwael, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ac anghydraddoldebau cysylltiedig; 4) Effaith y system ar benderfynyddion ehangach iechyd; Gwelliant i [llesiant](#) cymunedol¹⁹.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [dulliau presgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Gwasanaethau Statudol ^Y

Disgrifiad: Mae **gwasanaeth statudol** yn fath o ofal neu wasanaeth wedi'i fandadu gan y llywodraeth ar gyfer y cyhoedd²⁰⁻²². Mae **gwasanaethau statudol** yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gwasanaethau tai, gwasanaethau addysg (gan gynnwys llyfrgelloedd), yr heddlu a'r gwasanaethau tân ac achub ²³.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [caffis cymdeithasol](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [datblygu'r practis](#), [hwylusydd iechyd](#), [hyrwyddwr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywiwr gofal](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Hwylusydd Iechyd ^{AC}

Disgrifiad: Gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n cyflawni rôl debyg i [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yw **hwylusydd iechyd**. Mae'r **hwylusydd iechyd** fel arfer yn gweithio ym mhractisau meddygon teulu ac mae'n gweld cleifion sydd wedi'u hatgyfeirio er mwyn helpu i nodi eu hanghenion a'u llywio drwy'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn eu [cyfeirio](#) at [asedau cymunedol](#) neu'n hybu grwpiau neu gyrsiau hunangymorth ar gyfer materion penodol. Yn wahanol i [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywiwr gofal](#) neu **hyfforddwr iechyd**, mae'r **hwylusydd iechyd** hefyd yn darparu cyngor ar ymarfer corff, maeth, deiet, rheoli pwysau, rheoli poen cronig a byw gydag iselder a gorbryder.

Mae **hyfforddwyr iechyd** yn cyflawni rôl debyg i **hwyluswyr iechyd**, sy'n gweithio gyda phractisau meddygon teulu i gysylltu cleifion ag ymyriadau penodol sy'n seiliedig ar iechyd yn y gymuned a chynorthwyo gyda'u cynnydd o ran eu hiechyd. Nid oes rhaid i **hyfforddwyr iechyd** fod yn weithwyr iechyd proffesiynol ac nid ydynt yn rhoi cyngor penodol ar feysydd iechyd. Gallent hwyluso newid ymddygiad iach a chynaliadwy drwy herio a chefnogi cleient i nodi ei werthoedd, datblygu ei nodau a thrawsnewid y nodau hynny'n gamau gweithredu.

Gallai **hwyluswyr iechyd** a **hyfforddwyr iechyd** atgyfeirio'r unigolyn at [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn y gymuned fydd yn gallu ei gysylltu'n well ag [asedau cymunedol](#).

Termau Amgen: Cynghorydd iechyd, brocer iechyd, hyfforddwr iechyd, cysylltwr iechyd, mentor iechyd, hyfforddwr iechyd a llesiant, hyfforddwr llesiant.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynlluniau dan reolaeth practis](#), [datblygu'r practis](#), [gwasanaethau statudol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymyriadau'n seiliedig ar natur](#).

Hybiau Cymorth Cymunedol ^Y

Disgrifiad: Mae **hybiau cymorth cymunedol** yn lleoedd mewn cymunedau lleol sy'n ceisio darparu 'siop un stop' i breswylwyr sydd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol sydd ar gael i'r holl breswylwyr. Ymysg y gwasanaethau mae cyngor cyfreithiol, cymorth gyda thenantiaeth, cam-drin domestig a sylweddau, cymorth ariannol, cymorth cyflogaeth a [phresgripsiynu cymdeithasol](#).

Termau Amgen: [Hybiau iechyd a gofal integredig](#), hybiau ffordd o fyw, **hybiau llesiant** ^{GI}.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio](#), [caffis cymdeithasol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llesiant](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Hyrwyddwr Presgripsiynu Cymdeithasol^{Y, AC}

Disgrifiad: Mae **hyrwyddwr presgripsiynu cymdeithasol** yn llywio'r strategaeth presgripsiynu cymdeithasol ranbarthol ac yn cydlynu'r cyfathrebu ar hyd y [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#). Os yw'n gweithio mewn practis cyffredinol mae'n ennyn cefnogaeth, yn annog [atgyfeiriadau](#) rheolaidd i'r gwasanaeth(au) [presgripsiynu cymdeithasol](#) ac yn codi proffil a gwerth canfyddedig [presgripsiynu cymdeithasol](#) ymhlith staff y practis cyffredinol.

Termau Amgen: Hyrwyddwr clinigol presgripsiynu cymdeithasol

Termau Cysylltiedig: [Cynllun dan reolaeth practis](#), [datblygu'r practis](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [llywio gofal](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Llesiant^{AC}

Disgrifiad: “Mae **llesiant** yn gyflwr cadarnhaol a brofir gan unigolion a chymdeithasau. Yn yr un modd ag iechyd, mae'n adnodd ar gyfer bywyd bob dydd ac mae'n cael ei benderfynu gan amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol”²⁴. Yng Nghymru, mae person â **llesiant** yn cael ei ddiffinio fel “hapus, iach ac sy'n gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y mae'n ei wneud”^{25,26}. Mae'n ymdeimlad o iechyd a bywiogrwydd sy'n deillio o'ch meddyliau, emosiynau, gweithredoedd, a'ch profiadau. Mae **gwasanaethau llesiant** a **phrosiectau llesiant** yn ceisio hwyluso a meithrin ymdeimlad o **lesiant** drwy gysylltiad cymdeithasol a mathau gwahanol o weithgarwch ac ymyriadau.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [dull sy'n canolbwytio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [egwyddorion canlyniad persgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [system gyfeillio](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Llwybr Presgripsiynu Cymdeithasol^{AC}

Disgrifiad: Mae'r llwybr presgripsiynu cymdeithasol yn disgrifio'r llwybr [atgyfeirio](#) a'r llwybr cyswllt a ddilynir i gysylltu unigolyn ag [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) neu rywun sy'n ymwneud â [phresgripsiynu cymdeithasol](#) fel rhan o'i rôl, ac o'r fan honno â'r [asedau cymunedol](#) priodol, fel **grwpiau**, **ymyriadau** neu **wasanaethau**. Gall y broses hon fod yn ailadroddus a gall gynnwys ail-ymgysylltu â'r [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn dibynnu ar y [model presgripsiynu cymdeithasol](#) a lefel y cymorth a gynigir gan yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Termau Amgen: Cyswllt, llwybr cysylltu, llwybr atgyfeirio

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [dulliau presgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llesiant](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Llywiwr Gofal ^{MCMG, AC}

Disgrifiad: Fel arfer, derbynnydd neu aelod os taff gweinyddol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol yw **llywiwr gofal**. Mae rôl y **llywiwr gofal** yn ymwneud yn bennaf â [chyfeirio gweithredol](#) at ddarpariaeth iechyd amgen, er enghraifft nyrs neu ffisiotherapydd, a allai fod yn fwy addas na meddyg teulu i ymdrin â phryderon penodol unigolyn. Fodd bynnag, gall **llyw-wyr gofal** gyflawni math o rôl sy'n fwy tebyg i [bresgripsiynu cymdeithasol](#) hefyd, a allai gynnwys treulio amser gydag unigolion, [cydgynhyrchu cynllun gweithredu](#) unigol gyda'r unigolyn a nodi **grwpiau, ymyriadau neu wasanaethau** addas ar eu cyfer. Gall **llyw-wyr gofal** gefnogi'r ungiolyn hefyd i fynychu sesiynau cychwynol neu atgyfeirio'r unigolyn at [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) sy'n gallu eu cysylltu'n well ag [asedau cymunedol](#).

Mae **llywio gofal** yn derm sy'n aml yn cael ei ddefnyddio yn lle [presgripsiynu cymdeithasol](#) i ddisgrifio [cyfeirio gweithredol](#) gan **llywiwr gofal**. Mae **llywio gofal** hefyd yn bodoli mewn sectorau eraill fel rôl sy'n cefnogi'r broses o lywio drwy wasanaethau gofal.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [egwyddorion canlyniad persgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [hwylusydd iechyd](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [system gyfeillio](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Mapio Asedau ^{AC}

Disgrifiad: Mae **mapio asedau** yn elfen hanfodol o [bresgripsiynu cymdeithasol](#), ac mae'n disgrifio'r dull o fapio gwasanaethau/asedau mewn cymuned er mwyn darparu rhestr a darlun o adnoddau cymuned.

Mae **mapio asedau** yn helpu i sicrhau bod yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn gallu [atgyfeirio'r](#) unigolyn yn briodol, yn seiliedig ar ei wybodaeth o'r [asedau cymunedol](#) sydd ar gael. Mae hefyd yn hwyluso'r asesiad o sut i ehangu'r [asedau cymunedol](#) hyn er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned a chefnogi datblygiad cymunedol.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#)

Modelau Presgripsiynu Cymdeithasol ^{Y, AC}

Disgrifiad: Mae modelau presgripsiynu cymdeithasol yn disgrifio'r gwahanol fathau o gymorth a rhyngweithio y mae [presgripsiynu cymdeithasol](#) yn ei gynnig i unigolyn. Disgrifir y rhain yn aml fel:

Cyfeirio: Yn syml mae'r unigolyn yn cael ei gyfeirio at [asedau cymunedol](#) priodol a/neu a allai fod yn ddefnyddiol.

Ysgafn: Mae'r [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn defnyddio [cyfeirio gweithredol](#) ac yn atgyfeirio pobl at raglen/ymyrraeth benodol er mwyn mynd i'r afael ag angen penodol a/neu fodloni neu weithio tuag at amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir o fewn amserlen benodol.

Canolig: Ymyrraeth fer lle y bydd yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn helpu'r unigolyn i nodi ei anghenion ac yn darparu cymorth [cyfeirio gweithredol](#) a chefnogaeth ar draws ystod o feysydd a allai gynnwys rheoli iechyd corfforol a llesiant seicolegol o fewn amserlen benodol.

Cyfannol: Y math mwyaf cyffredin o [presgripsiynu cymdeithasol](#) ac un sy'n ceisio cynorthwyo'r unigolyn mewn ffordd gyfannol dros gyfnod hwy o amser, gyda chymorth [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#). Mae'r [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), gan ddefnyddio [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), yn helpu'r unigolyn i nodi ei anghenion a dod o hyd i wasanaethau addas a chael mynediad atynt. Mae'r [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) yn darparu ystod eang o ymyriadau ac yn cysylltu'r unigolion â gwasanaethau a rhwydweithiau lleol. Nid oes uchafswm o ran y nifer o amseroedd y gwelir yr unigolyn; bydd hyn yn cael ei benderfynu gan asesiad holistaidd o anghenion yr unigolyn. Ystyrir bod hyn wedi esblygu o **gyfeirio pobl at atgyfeiriadau cymdeithasol, ysgafn a chanolig**. Mae gwahaniaethau sylweddol yn y nifer a'r math o staff sy'n cael eu recriwtio, ffocws eu gweithgarwch, a'r dull o atgyfeirio at yr [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Gwasanaeth atgyfeirio cymunedol - mae hyn yn disgrifio gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol i bobl neu gymuned ag anghenion penodol e.e. pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Gellir ei ystyried fel math o [atgyfeiriad wedi'i dargedu](#)

Atgyfeiriad cymdeithasol cymunedol ehangach: Model [presgripsiynu cymdeithasol](#) sy'n cyfuno ymgysylltiad cymunedol, newid sefydliadol ac arfer ar lefel unigol, gyda'r nod o wella [llesiant](#) y gymuned a'r unigolyn. Mae'n darparu ffordd o feddwl ynghylch gwerth cyfatebol llesiant unigolion a chymunedau yng nghyd-destun gofal iechyd sylfaenol a chymunedau lleol.

Termau Amgen: Modelau sy'n seiliedig ar weithiwr cyswllt, rhaglen gweithiwr cyswllt, cynnig atgyfeirio cymdeithasol.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [dulliau presgripsiynu cymdeithasol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Presgripsiynu Cymdeithasol ^{MCG, AC}

Disgrifiad: Term ambarél sy'n disgrifio [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#) i gysylltu pobl â chymorth anghlinigol yn y gymuned yw **presgripsiynu cymdeithasol** ^{6l}. Gall helpu i rymuso unigolion i adnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain ac i gysylltu â'u cymunedau eu hunain i gael cymorth gyda'u hiechyd a'u [llesiant](#) personol. Gall **presgripsiynu cymdeithasol** ddarparu continwwm o gymorth, chwarae rôl ataliol, neu ffurfio rhan o fodel cymorth 'camu i lawr' ⁶.

Er gwaetha'r ffaith ei fod yn defnyddio'r term 'presgripsiynu', mae'r model **presgripsiynu cymdeithasol** yng Nghymru yn symud i ffwrdd o ddull meddygol, gan gynnig **presgripsiynu cymdeithasol** yn lle hynny, mabwysiadu agwedd 'dim drws anghywir' lle mae'r ffynonellau [atgyfeirio](#) yn rhai traws-sectoraidd ac nad ydynt wedi'u cyfyngu i ofal iechyd / gofal sylfaenol. Un o egwyddorion craidd **presgripsiynu cymdeithasol** yw ei fod yn galw am ryngweithio cydweithredol rhwng sefydliadau lluosog a hynny ar draws gwahanol sectorau ^{6,8,9}.

Yng Nghymru, ceir gwahanol [fodelau presgripsiynu cymdeithasol](#) ond mae'r rhan fwyaf o **ymyriadau presgripsiynu cymdeithasol** yn defnyddio model sy'n seiliedig ar [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#). Bydd [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#), neu rywun sy'n ymgymryd â phresgripsiynu cymdeithasol fel rhan o'i rôl, yn helpu pobl i nodi eu hanghenion cymdeithasol, meddyliol, corfforol ac economaidd drwy [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#). Yna bydd yn cefnogi'r unigolyn i [gyd-gynhyrchu cynllun gweithredu](#) penodol a manteisio ar [asedau cymunedol](#) a allai fod o fudd i'w hiechyd a'u [llesiant](#). Yna gellid cefnogi'r unigolyn i fynychu'r **gweithgaredd atgyfeirio cymdeithasol**. Mae lluo o dermau sy'n dod o dan yr ambarél **presgripsiynu cymdeithasol** ac mae llawer ohonynt yn cael ei defnyddio yn lle y term hwn.

Y term **unigolyn** yw'r term a ffefir i ddisgrifio **buddiolwr presgripsiynu cymdeithasol** h.y., yr unigolyn sy'n ymgysylltu â'r broses **presgripsiynu cymdeithasol**. Termau cyffredin eraill a ddefnyddir yw **defnyddiwr gwasanaeth, claf, cleient a dinesydd**.

Termau Amgen: atgyfeiriad cymunedol, cymorth cymunedol, cynllun cysylltu cymunedol, **cysylltiad / cysylltiad cymunedol** ^{CVSO}, **llywio cymunedol** ^{CVSO}, cymunedau tosturiol, cynllun cysylltydd, gwasanaeth cysylltydd cynlluniau cysylltu, gwasanaeth cysylltu, cynlluniau gweithiwr cyswllt, ymyriad anghlinigol, atgyfeirio anghlinigol, cymorth anghlinigol, ymyrraeth anfeddygol, atgyfeiriad anfeddygol, atgyfeirio anfeddygol, cymorth anfeddygol, cymorth anfeddygol yn y gymuned, ymyriad nad yw'n fferyllol, gweithgarwch cymdeithasol wedi'i atgyfeirio, cynllun atgyfeirio cymdeithasol, gwasanaeth atgyfeirio cymdeithasol, system atgyfeirio cymdeithasol, atgyfeiriad wedi'i gefnogi, rhaglenni atgyfeiriad cymdeithasol.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [gwasanaethau statudol](#), [hybiau cymorth cymunedol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol digidol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Presgripsiynu Cymdeithasol Digidol ^{AC}

Disgrifiad: Mae presgripsiynu cymdeithasol digidol yn cwparu unrhyw ddatrysiad, technoleg, gwybodaeth neu system electronig ar ffurf digidol sy'n galluogi presgripsiynu cymdeithasol, boed hynny wyneb yn wyneb neu o bell. Er enghraifft, mae platfformau meddalwedd presgripsiynu cymdeithasol digidol yn darparu'r wybodaeth i reoli rhwydwaith presgripsiynu cymdeithasol yr holl wasanaethau, defnyddwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Termau Amgen:

Termau Cysylltiedig: [Atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllun dan reolaeth practis](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [gwasanaethau statudol](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol ^Y

Disgrifiad: Defnyddir y term **Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol** (CVSO) yn aml i olygu sefydliadau'r trydydd sector. Mae'n disgrifio ystod o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydfuddiannol a chydweithredol, nad ydynt yn sefydliadau'r sector cyhoeddus na'r sector preifat a gallai fod ganddynt gymysgedd o staff cyflogedig a gwirfoddol. Er y gallai'r sefydliadau unigol alw eu hunain yn sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol neu'n fentrau cymdeithasol, mae'r diffyg gwahaniaeth clir rhwng y categorïau hyn yn darparu dadl gadarn dros eu hystyried gyda'i gilydd fel Trydydd Sector¹⁶.

Diffinnir sefydliad y trydydd sector fel: Corff annibynnol, anllywodraethol wedi'i 'lywio gan werthoedd' (nad ydynt yn cynnwys awdurdodau lleol a/neu gyrff cyhoeddus eraill) y mae eu gweithgareddau: (a) yn cael eu cyflawni nid er elw, a (b) o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i Gymru gyfan neu unrhyw ran o'r wlad (p'un a ydynt yn fuddiol i unrhyw ardal arall ai peidio)¹⁷.

Mae gan bob sir yng Nghymru Gyngor Gwirfoddol Sirol a'i brif rôl yw darparu cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ar wirfoddoli, ffynonellau cyllid ac ystod o faterion eraill¹⁸.

Termau Amgen: Sefydliadau angori cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, gwasanaethau'r sector gwirfoddol cymunedol, sefydliadau gwasanaeth cymunedol gwirfoddol, mentrau gwasanaeth gwirfoddol, sefydliadau gwasanaeth gwirfoddol.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [gwasanaethau statudol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [system gyfeillio](#).

Sgwrs am yr Hyn sy'n Bwysig ^{MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae sgwrs am yr hyn sy'n bwysig yn rhan ganolog o'r broses [presgripsiynu cymdeithasol](#). Cynhelir sgwrs am yr hyn sy'n bwysig rhwng [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) a'r [buddiolwr/unigolyn presgripsiynu cymdeithasol](#) er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac ym mha feysydd y mae angen cymorth arno. Mae'r sgwrs yn sail i'r broses o [gyd-gynhyrchu cynllun gweithredu](#).

Termau Amgen: Sgwrs dosturiol, **sgwrs llesiant** ^{GC}, sgwrs am yr hyn sy'n bwysig i mi.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [hwylusydd iechyd](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

System Gyfeillio ^{Y, AC}

Disgrifiad: Gall **system gyfeillio** gyfeirio at

- Gymorth wyneb yn wyneb gan [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#) rhwng yr amser y caiff unigolyn ei [atgyfeirio](#) a'r sesiwn gyntaf gyda **grŵp, ymyriad neu wasanaeth**, y credir ei fod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn mynychu apwyntiad.
- Cyswllt rhwng un aelod o'r gymuned ac aelod arall o'r gymuned i gynnig cymorth i fanteision ar **grŵp, ymyriad neu wasanaeth** drwy bresgripsiynu cymdeithasol. Gallai'r aelod o'r gymuned sy'n cynnig ei gymorth fod yn **wirfoddolwr atgyfeirio cymdeithasol**, neu mae'n bosibl y bydd ganddo rôl â thâl. Mae gan yr aelod hwn o'r gymuned brofiad bywyd o anawsterau penodol, e.e. anawsterau iechyd meddwl neu boen cronig, ac fel arfer bydd wedi cael manteisio ar y **grŵp, ymyriad neu wasanaeth** yn uniongyrchol drwy wasanaeth presgripsiynu cymdeithasol ac yna'n cynnig cynorthwyo unigolion wedi hynny i fanteisio ar [ased cymunedol](#) penodol.

Termau Amgen: Mentoriaid cyfoedion, llyw-wyr cyfoedion, cymorthwyr cyfoedion.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

Ymarferydd Presgripsiynu Cymdeithasol ^{Y, MCMG, AC}

Disgrifiad: Mae ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol yn derm ambarél am rywun sy'n cynorthwyo unigolion i nodi eu hanghenion anfeddygol drwy [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#), ac sy'n eu helpu i [gydgynhyrchu cynllun gweithredu](#) a chael mynediad at [asedau cymunedol](#), megis **grwpiau**, **ymyriadau neu wasanaethau**. Os bydd yn nodi angen meddygol posibl, efallai y bydd yn [atgyfeirio'r](#) unigolyn at feddyg teulu neu fferylllydd. Bydd ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol yn gweithio gydag unigolion i ganfod gweithgareddau sydd wedi'u teilwra i'w dewisiadau a'u hanghenion, i archwilio rhwystrau a heriau i fynychu, ac i annog cyfranogiad parhaus. Er bod termau a ffeirir am rôl ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol yn cael eu defnyddio mewn sectorau, mae'n bosibl y cyfeirir atynt hefyd drwy ddefnyddio gwahanol dermau a all fod yn benodol i'r sefydliad y maent yn gweithio ynddo. Gall ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol gael eu cyflogi gan ystod o wahanol sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd neu [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#).

Termau Amgen: Cysylltydd cymunedol ^{CVSO}, cydlynnydd cymunedol ^{GC}, hyrwyddwr iechyd cymunedol, swyddog cyswllt cymunedol, ymarferydd cysylltiadau cymunedol, llywiwr cymunedol ^{CVSO}, hwylusydd, cynghorydd iechyd, brocer iechyd, cysylltwyr iechyd, cydlynnydd cyswllt, gweithiwr cyswllt ^{GI}, cydlynnydd ardal leol ^{GC}, cydlynnydd asedau lleol ^{GC}, gweithiwr cyswllt anfeddygol, asiant atgyfeirio, gweithiwr atgyfeirio, atgyfeiriwr, atgyfeiriwr cymdeithasol, cydlynnydd atgyfeirio cymdeithasol, swyddog atgyfeirio cymdeithasol, cynghorydd llesiant, cydlynnydd cymunedol llesiant, cydlynnydd llesiant, cynghorydd cysylltiadau llesiant, gweithiwr llesiant.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio](#), [cydgynhyrchu](#), [cyfannol](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [cynllunio camau gweithredu](#), [dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#), [dull sy'n seiliedig ar asedau](#), [hwylusydd iechyd](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [mapio asedau](#), [modelau presgripsiynu cymdeithasol](#), [presgripsiynu cymdeithasol](#), [sgwrs am yr hyn sy'n bwysig](#).

Ymyriadau'n Seiliedig ar Natur ^{AC}

Disgrifiad: Mae ymyriadau'n seiliedig ar natur ^{GI} yn derm ambarél a ddefnyddir i ddisgrifio **grwpiau**, **ymyriadau neu wasanaethau** sy'n cefnogi unigolion i wella eu [llesiant](#) drwy gysylltu â natur a threulio amser mewn amgylcheddau naturiol neu led-naturiol. Mae [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio glas](#), [ffermio gofal](#), [garddwriaeth therapiwtig](#) ac [ecotherapi](#) oll yn dod o dan yr ambarél ymyriadau'n seiliedig ar natur.

Termau Amgen: Ecotherapi, gweithgareddau'n seiliedig ar natur, gweithgareddau hybu iechyd sy'n seiliedig ar natur, iechyd a llesiant sy'n seiliedig ar natur, sefydliadau sy'n seiliedig ar natur, datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, presgripsiynu natur, ymyrraeth grŵp sy'n seiliedig ar natur yn yr awyr agored.

Termau Cysylltiedig: [Asedau cymunedol](#), [atgyfeirio at addysg](#), [atgyfeirio at gymorth lles](#), [atgyfeirio at lyfrau](#), [atgyfeirio at ymarfer corff](#), [atgyfeirio creadigol](#), [atgyfeirio glas](#), [atgyfeirio gwyrdd](#), [atgyfeirio](#), [cyfeirio a chyfeirio gweithredol](#), [llesiant](#), [llwybr presgripsiynu cymdeithasol](#), [Sefydliadau'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol](#), [ymarferydd presgripsiynu cymdeithasol](#).

A-Y o Dermau Craidd

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o'r holl dermau craidd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol a nodwyd yn ystod ein gwaith ymchwil.

Addysg ar bresgripsiwn	32,46,102,103
Angueddfa ar bresgripsiwn	62,103
Anghenion anfeddygol	53,113,161,167,171
Anogwr iechyd	40,119
Anogwr llesiant	40
Arweinydd ymarfer corff	104
Asedau	5,11,43-45
Asedau cymunedol	1,5,11,41,45,58-61
Asiant atgyfeirio	79,167,177
Atgyfeiriad anfeddygol	41,172
Atgyfeiriad at gymorth lles	38
Atgyfeiriad at y celfyddydau	63
Atgyfeiriad cymdeithasol cymunedol ehangach	9,33,35,41,46,48,62, 73,81-90
Atgyfeiriad cymunedol	46,168
Atgyfeiriad gwyrdd creadigol	
Atgyfeiriad wedi'i gefnogi	91,116,165,166
Atgyfeirio	89
Atgyfeirio anfeddygol	147
Atgyfeirio anghlinigol	62
Atgyfeirio at ddarllen	103
Atgyfeirio at natur	1,4,5,7,29,30,33,35,40-43,48,49,54,55,62-65,68,70,72-74,76,78-
Atgyfeirio at ymarfer corff	81,84,85,88,90,91,93-98,100,102,105,113,114,117-122,124,126-129,132-161
Atgyfeirio cymdeithasol	11
Atgyfeirio cymdeithasol o bell	116 74
Atgyfeirio gwyrdd	31,40,93,105,112,178
Atgyfeiriwr	46
Bibliotherapi	74
Brocer iechyd	2
Buddiolwyr atgyfeirio cymdeithasol	5
Caffis cymdeithasol	47
Campfa las	32,46,47,74,98,102,103
Campfa werdd	30-34
Celf ar bresgripsiwn	38
Celfyddydau creadigol mewn atgyfeiriad cymdeithasol	
Celfyddydau iachau	34
Cydgynhyrchiad	7,43,65,71,72,79,84,93-99

Cydgynhyrchu	7,43,65,71,72,79,84,93–99
Cydgynhyrchwyr newid	100
Cydlunio	44,55,56
Cydlynnydd	91,92
Cydlynnydd asedau lleol	39
Cydlynnydd atgyfeirio cymdeithasol	7,185
Cydlynnydd cymunedol	1,43
Cydlynnydd cymunedol llesiant	82
Cydlynnydd cyswllt	79
Cydlynnydd llesiant	40,82,127
Cydlynnydd yr ardal leol	
Cyfannol	2,38,41,42,48,73,74,88,95,97,121–130
Cyfeirio	2,5,11,29,42,43,46,72,78,94,105,133,144,151,165,179–182
Cyfeirio gweithredol	29
Cymorth anfeddygol	85,99,134,148,161,166,173
Cymorth anfeddygol yn y gymuned	99
Cymorth anghlinigol	42,44,128,168
Cymorth cymunedol	
Cymorth llesiant, cyfreithiol ac ariannol	15
Cymorth/cefnogwyr cymheiriaid	141,151,162
Cymunedau tosturiol	88
Cynghorydd cysylltiadau llesiant	
Cynghorydd iechyd	76,117
Cynghorydd llesiant	43,54,79,144
Cynllun atgyfeirio cymdeithasol sy'n seiliedig ar amgueddfeydd	103
Cynllun Cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff	163,164
Cynllun cysylltu cymunedol	69
Cynllun cysylltydd	29
Cynllun gweithredu wedi'i gydgyhyrchu	
Cynlluniau atgyfeirio at weithgaredd corfforol	115,152,175,176
Cynlluniau atgyfeirio at ymarfer corff	107–112
Cynlluniau atgyfeirio cleifion ar gyfer sesiynau ymarfer corff wedi'u goruchwyllo	174
Cynlluniau atgyfeirio cymdeithasol	46,81,100,115,130,146,147,162,185,191
Cynlluniau gweithredu / Cynllunio camau gweithredu	11,27–29
Cynlluniau cysylltu	86,162
Cynlluniau dan Reolaeth Practis	104
Cynlluniau gweithiwr cyswllt	40
Cynlluniau ymarfer corff ar bresgripsiwn	106
Cynnig atgyfeirio cymdeithasol	
Cyswllt	
Cyswllt cymunedol	9,66
Cysylltiad cymunedol	4,41,63
Cysylltwyr iechyd	120
Cysylltydd	76
Cysylltydd cymunedol	4,11,41,43,54,63–65
Dan arweiniad cleient	
Datblygu'r practis	49

Datrysiadau sy'n seiliedig ar natur	41
Dull atgyfeirio cymdeithasol	55
Dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	
Dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau	
Dull sy'n seiliedig ar asedau	5,39–41
Dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau	35
Ecotherapi	46,74,101
Egwyddorion canlyniad presgripsiynu cymdeithasol	59
Ffermio cymdeithasol	50
Ffermio gofal	50
Ffermwyr gofal	50
Garddwriaeth therapiwtig	98,101,116
Gofal gwyrdd	50
Gofal iechyd drwy'r celfyddydau	34
Gwasanaeth atgyfeirio cymdeithasol	
Gwasanaeth cymunedol wedi'i bresgripsiynu'n gymdeithasol	155
Gwasanaeth cysylltu	92
Gwasanaethau cymunedol	
Gwasanaethau cysylltydd	
Gwasanaethau gofal gwyrdd	50
Gwasanaethau llesiant	81
Gwasanaethau statudol	
Gweithgareddau hybu iechyd sy'n seiliedig ar natur	76
Gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur	35,165
Gweithgareddau wedi'u presgripsiynu	159
Gweithgarwch wedi'i bresgripsiynu'n gymdeithasol	89
Gweithiwr atgyfeirio	48,167
Gweithiwr cyswllt	1,4,5,7,29,30,33,35,40–43,48,49,54,55,62–65,68,70,72–74,76,78–81,84,85,88,90,91,93–98,100,102,105,113,114,117–122,124,126–129,132–161
Gweithiwr cyswllt anfeddygol	84
Gweithiwr llesiant	11
Gweithwyr cyswllt atgyfeirio cymdeithasol	41,48,118,146,151,187,188
Hwylusydd (Cyd-destun: Gweithiwr cyswllt)	113,114
Hwylusydd iechyd	2
Hyfforddwr iechyd	4,57,72,87,89,92,100,108
Hyfforddwr iechyd a llesiant	118
Hyrwyddwr clinigol atgyfeirio cymdeithasol	97,186
Hyrwyddwr iechyd cymunedol	54
Hyrwyddwyr presgripsiynu cymdeithasol	95,167
Iechyd a llesiant sy'n seiliedig ar natur	
Llesiant	63,122
Llwybr cysylltu	72,100
Llwybr presgripsiynu cymdeithasol	119,185,189,190
Llwybrau atgyfeirio	36,47,87,168
Llwybrau atgyfeirio iechyd	115
Llywio gofal	51–54
Llywiwr	35,68,76,77,103,117,121,166,167

Llywiwr cymunedol	4,71–80
Llywiwr gofal	51–54
Llyw-wyr cyfoedion	133
Mapio asedau	11,42
Mentoriaid iechyd	112
Mentrau gwasanaeth cymunedol gwirfoddol	41
Model gofal wedi'i bersonoli	35,98
Modelau presgripsiynu cymdeithasol	2,11,182
Modelau sy'n seiliedig ar weithiwr cyswllt	48
Nodau personol	5,29,57,77
Partneriaethau iechyd gwyrdd	115
Pecyn atgyfeirio cymdeithasol	2
Presgripsiynu cymdeithasol	1,4,5,7,29,30,33,35,40–43,48,49,54,55,62–65,68,70,72–74,76,78– 81,84,85,88,90,91,93–98,100,102,105,113,114,117–122,124,126–129,132–161
Presgripsiynu cymdeithasol digidol	85
Presgripsiynu glas	
Presgripsiynu gwyrdd	116
Presgripsiynydd cymdeithasol	1,4,11,51,54,64,65,77,79,81,99,121,127,134,135,140,150,151,156,167,168,183 ,184
Prosiectau llesiant	40
Rhaglen gweithiwr cyswllt	143
Rhaglenni atgyfeiriad cymdeithasol	9
Rhaglenni celfyddydol atgyfeirio cymdeithasol	148
Sefydliadau angor cymunedol	
Sefydliadau Angori'r Sector Cymunedol a Gwirfoddol	57
Sefydliadau gwasanaeth cymunedol gwirfoddol	47
Sefydliadau gwasanaeth gwirfoddol	151
Sefydliadau gwasanaethau cymunedol a gwirfoddol	
Sefydliadau sy'n seiliedig ar natur	116
Sgwrs am yr hyn sy'n bwysig	11,41,43,65,67,79
Sgwrs am yr hyn sy'n bwysig i mi	149
Sgwrs dosturiol	
Sgwrs llesiant	41,128
Swyddog atgyfeirio cymdeithasol	
Swyddog cyswllt	131
Swyddog cyswllt cymunedol	66–68
System gyfeillio	48
Systemau presgripsiynu cymdeithasol	85
Wedi'i arwain gan yr unigolyn	
Wedi'i gyd-lunio	44,55,56
Ymarfer corff ar bresgripsiwn	2,46,57,105,106
Ymarferwyr atgyfeirio at ymarfer corff	87
Ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol	2,77
Ymarferydd cysylltiadau cymunedol	70
Ymyriad anghlinigol	
Ymyriad grŵp sy'n seiliedig ar natur yn yr awyr agored	165
Ymyriad gweithgarwch corfforol	58,87
Ymyriad nad yw'n fferyllol	

<u>Ymyriad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</u>	
<u>Ymyriadau anfeddygol</u>	2,4,85,105,121,169,170
<u>Ymyriadau celfyddydau ar gyfer iechyd</u>	37
<u>Ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau</u>	36
<u>Ymyriadau'n seiliedig ar natur</u>	76,98,116,135
<u>Ymyrraeth atgyfeirio cymdeithasol</u>	44,56,70,73,78,100,103,113,165

A-Y Termau Di-graidd

Isod mae rhestr o dermau presgripsiynu di-graidd a nodwyd yn ystod ein gwaith ymchwil.

Actif
Ailgysylltu (pobl gyda'u cymuned)
Anghenion seicogymdeithasol
Arferion Cydweithredol
Asedau celfyddydol
Asedau diwylliannol
Asedau gwybodus
Asedau personol
Asedau treftadaeth
Asesiad gwerthadwyaeth
Asesiad unigol
Atgyfeiriad agored
Atgyfeiriad gwybodaeth
Atgyfeirio ymlaen
Atgyfeiriwr allanol
Baich emosiynol
Banciau amser
Bancio amser
Bond effaith gymdeithasol (SIB)
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
Byrddau partneriaeth rhanbarthol
CAM: Meddygaeth Gyflenwol ac Ategol
Canlyniadau iechyd a llesiant
Canlyniadau meddal
Canolfan iechyd
Canolfannau llesiant
Capasiti
Capasiti cymunedol
Capasiti unigol
Cau ystyrllon
"Cefnogaeth" emosiynol
Cleientiaid
Cleifion
Credydau amser
Cwnselydd gweithgarwch
Cyd-gynhyrchu trawsnewidiol
Cydlyniant cymdeithasol
Cydlyniant cymunedol
Cydlynnydd Gofal

Cydsyniad
Cyfalaf
Cyfalaf adfer
Cyfalaf cymdeithasol
Cyfalaf cymdeithasol gwybyddol
Cyfalaf cymdeithasol perthynol
Cyfalaf cymdeithasol strwythurol
Cyfalaf diwylliannol
Cyfalaf economaidd
Cyfalaf iechyd
Cyfeiriadur digidol
Cyfeiriadur o wasanaethau
Cyflyrau tymor hir
Cyfranogiad (mewn penderfyniad)
Cyfranogiad egniol
Cyfranogwr
Cyfweld ysgogol
Cyllid cynaliadwy
Cyllid cynnydd
Cymorth parhaus wedi'i bersonoli
Cymorth personol
Cymuned
Cymunedau cysylltiedig
Cynghorydd llwybrau
Cynghorydd menter gymdeithasol
Cynghrair therapiwtig
Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyngor Gwirfoddol Cymunedol (CVC)
Cynllun myfyriwr-hyrwyddwr presgripsiynu cymdeithasol
Cynlluniau sy'n cael eu rheoli gan ganolfannau hamdden
Cynlluniau ymarfer corff
Cynrychiolwyr sefydliad cymunedol
Cyswllt pendant
Cysylltiad cymdeithasol
Dad-feddygoli
Dangosyddion
Darpariaeth gymunedol
Darparwr gweithgarwch
Darparwr hamdden
Darparwr ymyriadau llesiant
